# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyngor Bro Morgannwg

Rhif y prosiect: 60676814

Hydref 2025

Delivering a better world

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Penodwyd AECOM gan Gyngor Bro Morgannwg (CBM) i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o Strategaeth a Ffefrir ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN), sy'n pennu targedau twf eang ar gyfer yr awdurdod rhwng 2021 a 2036. Mae Polisi SP1 (Strategaeth Twf) yn darparu ar gyfer 7,890 o anheddau a 67.8 hectar o ofod cyflogaeth, gyda lleoliadau Safleoedd Allweddol i'w datblygu hefyd yn cael eu nodi yn y CDLIN. Amcan yr ARhC yw nodi unrhyw agweddau ar y CDLIN a allai arwain at Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (EAT) a, lle bo'n berthnasol, effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac, fel mater o bolisi'r Llywodraeth, safleoedd Ramsar. Mae'r ARhC yn asesu effeithiau amgylcheddol posibl y CDLIN yn unig, yn ogystal ag ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, gan gynghori ar fecanweithiau polisi priodol ar gyfer lliniaru lle bo angen. Fodd bynnag, o ystyried ei gam datblygu cymharol gynnar, nid yw'r CDLIN yn nodi'r holl ddyraniadau datblygu eto na geiriad polisi cynhwysfawr. O'r herwydd, caiff yr Asesiad Priodol (AP; ail gam proses yr ARhC) ar rai o'r llwybrau effaith ei ohirio i ARhC y Cynllun Adneuo ac y caiff meysydd gwaith pellach i lywio’r ARhC hwnnw eu nodi.

## Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r angen am asesiad o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd wedi'i nodi yng nghyfraith Cymru a Lloegr gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Er mwyn canfod a fydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn cael eu heffeithio, rhaid i awdurdodau cymwys felly gynnal ARhC o'r cynllun neu'r prosiect dan sylw, gan gynnwys AP os oes angen, cyn ei gymeradwyo.

## Cwmpas

O ystyried asesiad cychwynnol o'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn 15km i Fro Morgannwg, eu sensitifrwydd a'r llwybrau effaith tebygol yn codi o bolisïau CDLIN, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi'u cynnwys yn yr asesiad (o leiaf nes cwblhau cam Sgrinio’r EAT): ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Bae Dwnrhefn, ACA Cynffig, ACA Coed Ffawydd Caerdydd, ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr ac ACA Coetiroedd Melin Ifan Ddu

## Tasgau ARhC

Ar ôl casglu tystiolaeth gychwynnol, cam cyntaf unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sgrinio ar gyfer EAT, yn y bôn asesiad o risgiau posibl cynlluniau datblygu ar gyfer safleoedd Ewropeaidd. Os na ellir eithrio EAT, yn bennaf oherwydd bod mecanwaith realistig ar gyfer rhyngweithio andwyol rhwng polisi a chynefin/rhywogaeth gymwys yn bresennol, mae cam nesaf ARhC, a elwir yn AP, yn cael ei sbarduno. Mae'r AP yn ddadansoddiad manylach o'r llwybrau effaith a'r safleoedd Ewropeaidd a ystyrir yn y cam Sgrinio. Un o’r agweddau allweddol ar AP yw ystyried mesurau lliniaru, sy'n helpu i amddiffyn safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle. Yn yr ARhC hwn, cafodd proses Sgrinio EAT ac AP eu cynnal.

## Canfyddiadau ac Argymhellion

Yn seiliedig ar wybodaeth wrthrychol, gellid eithrio EATau ar gyfer rhai llwybrau effaith – rhyngweithiadau safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni ellid eithrio EATau ar gyfer rhai llwybrau effaith o ran ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Coed Ffawydd Caerdydd ac ACA Cynffig. Cafodd y llwybrau effaith canlynol eu sgrinio ar gyfer AP:

- Pwysau hamdden yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren;
- Ansawdd y dŵr yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Cynffig;
- Materion swm, lefel a llif y dŵr yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Cynffig;

- Colli cynefin cysylltiedig o ran AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren;
- Aflonyddwch gweledol a sŵn i adar cymwys yn AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren;
- Effaith llygredd atmosfferig ar gynefinoedd cymwys yn AGA Coed Ffawydd Caerdydd; ac
- Effeithiau cywasgu arfordirol yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren.

Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol ynghylch y llwybrau effaith a'r Safleoedd Cynefinoedd mwyaf perthnasol. Mae'n cynnwys yr holl lwybrau effaith lle bernir bod angen geiriad polisi er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar uniondeb y safle.

**Pwysau Hamdden**

Mae'r CDLlN yn dyrannu 1,275 o anheddau newydd net, sy'n cyfateb yn fras i gynnydd o 3,060 o breswylwyr, o fewn dalgylch hamdden craidd 12.6km ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren . Disgwylir i'r preswylwyr ychwanegol hyn gyfrannu'n rheolaidd at niferoedd yr ymwelwyr hamdden o fewn ffin y safle dynodedig. Yn unol â nifer o ymagweddau ar gyfer Safleoedd Cynefinoedd ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ledled y DU, ac yn enwedig o amgylch Aber Afon Hafren (gan gynnwys Caerdydd, Sir Fynwy, ac Ardal Stroud yn Lloegr), argymhellir y dylai'r dyraniadau hyn gyfrannu at fesurau lliniaru wedi'u targedu, o ran Rheoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS) ar y safle a darparu mannau gwyrdd amgen (oddi ar y safle).

Yn unol â'r Strategaeth Dros Dro i Osgoi Effaith bras a sefydlwyd ar gyfer Stroud ac sydd wedi ei argymell ar gyfer yr awdurdodau eraaill o Gymru uchod, argymhellir bod ystod o fesurau osgoi a lliniaru yn cael eu hystyried gan yr awdurdod:

- Darparu Mannau Gwyrdd Amgen Addas (MGAAau) neu fannau gwyrdd hamdden ar raddfa lai, lle bo'n bosibl yn agos at safleoedd tai sy'n dod i'r amlwg (er y nodir y bydd yn anodd efelychu naws ac atyniad yr aber);
- Mesurau Rheoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS) ar y safle ar themâu allweddol wardeinio, arwyddion, byrddau gwybodaeth, addysg ac ymwybyddiaeth, creu parthau ac is-ddeddfau (e.e. rheolaethau ar gŵn), darpariaeth barcio, gwelliannau i lwybrau, biniau gwastraff cŵn, meinciau/seddi a chyfleusterau hyfforddi oddi ar y safle ar gyfer cŵn;
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau cyfagos a chynghorau plwyf) i gyflawni canlyniad cydlynol, integredig, cynaliadwy a hirdymor; a
- Monitro lefelau hamdden yn y dyfodol i asesu patrymau hamdden newidiol a digonolrwydd / dosraniadau adar sy'n gaeafu i asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru.

Yn ogystal â hyn, tynnodd yr ARhC sylw hefyd at rai mesurau RhMMS cychwynnol, lefel uchel y gellid eu cyflwyno ar hyd y darn o ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren i liniaru effeithiau hamdden. Dylid gwerthuso'r mesurau arfaethedig ymhellach drwy gydweithrediad rhwng ecolegydd CBM a Chyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn sicrhau y bydd lliniaru digonol ar gyfer effeithiau hamdden yn ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn cael ei gyflwyno dros gyfnod y CDLlN, argymhellir bod polisi i'r perwyl hwn yn cael ei gynnwys yn yr CDLlN a gyflwynir i'w Archwilio. Dylid cynnwys y geiriad polisi canlynol: '***Ni fydd cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren, neu Dir Cysylltiedig Swyddogaethol yn cael eu cefnogi oni bai y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Safle Morol Ewropeaidd yn digwydd.***'

Ar ôl cynnwys y testun polisi hwn yn y Cynllun Adneuo, deuir i'r casgliad na fyddai'r Cynllun yn arwain at effeithiau andwyol ar uniondeb ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn sgil pwysau hamdden.

**Colli Cynefin â Chysylltiadau Swyddogaethol**

Aseswyd y potensial i'r Safleoedd Allweddol a Dyryniadau Cyflogaeth Mawra a gynhwyswyd yn y CDLlN i weithredu fel safleoedd cysylltiedig yn swyddogaethol ag AGA/Ramsar Aber Afon Hafren. Mae'r data a gyflwynir yn yr Asesiad Argaeledd yn dangos bod gan dri Safle Allweddol ac un Dyraniad Cyflogaeth Mawr

addasrwydd posibl ar gyfer cysylltiad swyddogaethol â'r AGA/Ramsar pan ystyrir metrigau allweddol (e.e. maint dyraniad, math o gynefin a phellter i'r AGA/Ramsar).

Er mwyn lleihau'r potensial i'r CDLlN sy'n cael ei ddatblygu arwain at golli cynefinoedd cysylltiedig yn swyddogaethol, argymhellir bod y testun canlynol (neu debyg) yn cael ei gynnwys mewn polisi priodol yn y CDLlN, yn unol â'r ymagwedd a gymerwyd tuag at dir cysylltiedig yn swyddogaethol yng Nghynllun Adneuo Sir Fynwy: '***Ni fydd cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd mewn pwysau ymwelwyr ar nodweddion ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren, neu golli Tir Cysylltiedig Swyddogaethol yn cael eu cefnogi oni bai y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Safle Morol Ewropeaidd yn digwydd.***' Yn cyd-fynd â'r polisi hwnnw hefyd roedd testun ategol '*Ni fydd unrhyw gynnig datblygu a allai gael effaith sylweddol ar uniondeb safle ACA, AGA neu Ramsar yn yn unol â'r cynllun datblygu. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Dir Cysylltiedig Swyddogaethol, sy'n cael ei ddiffinio fel cynefin y tu allan i ffin y safle dynodedig sy'n hanfodol i allu'r dynodiadau i gyrraedd eu Hamcanion Cadwraeth. Mae'r paramedrau ar gyfer hyn yn benodol i bob safle dynodedig'.* '

Wrth gynnwys y geiriad polisi hwn, gellir dod i'r casgliad na fydd CDLlN Bro Morgannwg yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA/Ramsar Aber Afon Hafren o ran colli cynefinoedd cysylltiedig yn swyddogaethol.

**<u>Aflonyddwch Gweledol a Sŵn</u>**

Mae rhai ardaloedd yn nwyrain Bro Morgannwg o fewn 300m i AGA / Ramsar Aber Afon Hafren, sef y pellter lle mae tarfu gweledol a sŵn ar adar cymwys yn debygol o ddigwydd oddi mewn iddynt (yn amodol ar fanylion ynghylch natur y gweithgaredd a modelu sŵn). Er nad yw'r CDLlN yn dyrannu unrhyw safleoedd newydd o fewn y parth aflonyddu uniongyrchol hwn, mae potensial y bydd datblygiadau annisgwyl yn digwydd yn yr ardal ehangach o amgylch Penarth. Rhaid ystyried tarfu gweledol a sŵn hefyd o ran safleoedd datblygu sy'n gorwedd yn gyfagos i gynefinoedd sydd yn gynefinoedd posib a gysylltir yn swyddogaethol. Er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau cymwys yn AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn cael eu diogelu rhag aflonyddwch ( o fewn y safle dynodedig ei hun a'r cynefinoedd cysylltiedig yn swyddogaethol) ac y bydd mesurau lliniaru digonol yn cael eu cyflwyno ar lefel cais cynllunio, argymhellir bod mecanwaith polisi i'r perwyl hwn yn cael ei gynnwys yn y CDLlN.

Gwneir yr argymhellion canlynol ar gyfer y CDLlN, sydd wedi'u hychwanegu at destun ategol Polisi SP20:

- Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o darfu gweledol a sŵn, argymhellir bod unrhyw waith adeiladu o fewn 300m i AGA/ Ramsar Aber Afon Hafren yn cael ei wneud yn ystod misoedd yr haf, pan na fydd poblogaethau cymwys yn bresennol ar y safle.
- Os na ellir amseru gwaith adeiladu i osgoi'r tymor lle nad oes magu (h.y. cyfnodau teithio a'r gaeaf), bydd angen cynnal asesiadau o effaith sŵn i sicrhau y bydd lefelau sŵn mewn derbynyddion sensitif yn parhau heb beri aflonyddwch. Byddai angen i ARhCau sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio perthnasol ddangos hyn un ai (a) drwy ddefnyddio trothwy absoliwt o 60dB neu (b) gymharu lefelau sŵn gwaith adeiladu â'r gwaelodlin cyn dechrau gwaith datblygu (sy'n debygol o fod yn fwy addas mewn cyd-destun trefol, a allai fod eisoes yn uwch na'r trothwy tarfu sefydledig o 60dB). Lle dangosir bod lefelau sŵn y cyfnod adeiladu yn achosi aflonyddwch, mae'n debygol y bydd angen mesurau lliniaru (e.e. sgriniau sŵn, technegau adeiladu llai swnllyd, offer lleddfu / cysgodi sŵn, osgoi goleuadau).[1]
- Dylai gwaith adeiladu o fewn 300m i unrhyw fannau clwydo penllanw sefydledig neu ardaloedd fforio allweddol yn neu'r tu allan i'r AGA/Ramsar fod â sgriniau priodol i leihau aflonyddu gweledol.
- Os ystyrir bod y cynefinoedd sy'n bodoli yn addas, dylid cynnal arolygon adar nad ydynt yn bridio ar barseli tir cyfagos sydd heb eu datblygu i ganfod a yw'r rhain yn gysylltiedig yn sywddogaethol â'r AGA/Ramsar. Lle deuir i'r casgliad bod hyn yn wir, dylid defnyddio'r mesurau lliniaru a restrwyd yn flaenorol (e.e. sgriniau sŵn a gweledol, offer lleddfu/cysgodi sŵn a/neu osgoi'r cyfnodau teithio/gaeafu).

O ystyried bod yr argymhellion uchod wedi'u cynnwys yn y CDLlN, deuir i'r casgliad na fydd y CDllN yn arwain at effeithiau andwyol ar uniondeb SPA/Ramsar Aber Afon Hafren o ran aflonyddu gweledol a sŵn.

aecom.com